Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

Urdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Rheolwr Sgiliau ac Anawsterau Dysgu Ychwanegol | **Lleoliad :** | Ystyriwn leoliadau ar draws Gymru |
| **Adran :** | Prentisiaethau | **Cyflog :** | Graddfa 6: £35,912 - £41,906 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith :** | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb :** | Parhaol |
| **Yn adrodd i :** | Pennaeth Rhaglenni | **Rheolaeth Llinell :** | Uwch Aseswyr, Aseswyr, Uwch Diwtoriaid a Thiwtoriaid (yn ôl yr alw, wedi eu rhannu gyda'r Rheolwr Dysgu ac Addysgu) |

**Prif bwrpas y swydd:**

Mae'r rôl yn un allweddol o fewn tîm rheoli dysgu ac addysgu yr Adran Prentisiaethau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio ar y cyd gyda'r Rheolwr Dysgu ac Addysgu, o dan arweiniad y Pennaeth Rhaglenni i sicrhau darpariaeth a phrofiad o'r ansawdd uchaf.

Byddech yn arwain yr is-dim sgiliau hanfodol, a hyd at 2 is-dim sector arbenigol arall.

Byddech yn arwain ar ein cefnogaeth anawsterau dysgu ychwanegol, gan sicrhau bod y gefnogaeth gywir mewn lle i bob prentis neu ddysgwr medru llwyddo.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Rheoli uwch aseswyr ac aseswyr hyd at 3 o'n sectorau darparu.
2. Rheoli llinell uwch diwtoriaid a thiwtoriaid Sgiliau Hanfodol.
3. Rheoli a gweithredu systemau Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy arwain ar waith yr Adran i ddatblygu'r cynnig cymorth sydd mewn lle i ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.
4. Gweithredu cynllun cymorth ychwanegol dysgwyr.
5. Arwain ar brosesau addasiadau rhesymol.
6. Rheoli perthynas yr Urdd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
7. Ymgymryd â thasgau ansawdd yn rheolaidd.

8. Arwain yn rhannol ar y gylchred sicrhau ansawdd.

9. Arwain ar gyfarfodydd safoni, gan sicrhau safon dysgu ac addysgu o'r safon uchaf a chydymffurfiaeth gyda gofynion y cymwysterau a'r Cyrff Gwobrwyo.

10. Arwain ar gyfarfodydd adran, a thîm yn ôl yr alw.

11. Tiwtora neu asesu hyd at 5 o ddysgwyr, yn ôl yr alw.

12. Yn ôl yr angen, cofnodi, adrodd a gweithredu ar achosai lles neu ddiogelu, pob tro mewn cydweithrediad a'r Pennaeth Prentisiaethau.

13. Cyfrannu at adroddiadau misol y brîf gontractwyr.

14. Cynnig addasiadau i bolisïau perthnasol a chreu canllawiau a phrosesau.

---

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
| --- | --- |
| 1. Profiad o reoli eraill neu weithredu fel rheolwr llinell.<br>2. Dealltwriaeth eang o'r sector prentisiaethau a sgiliau.<br>3. Dealltwriaeth dda o Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r technegau allem roi mewn lle i helpu.<br>4. Profiad o weithredu fel addysgwr neu fel ymarferydd yn un o'r sectorau canlynol: Gwaith Ieuenctid, Gofal Plant, Chwaraeon, Hamdden, Awyr Agored neu Sgiliau.<br>5. Agwedd cadarnhaol a'r ysfa i arwain eraill.<br>6. Dealltwriaeth fanwl o gymwysterau Sgiliau Hanfodol.<br>7. Gradd, Prentisiaeth Uwch, neu brofiad cyfwerth mewn pwnc cysylltiedig neu ategol.<br>8. Cymhwyster TAQA neu gyfwerth. | 1. Cymhwyster Sicrhau Ansawdd.<br>2. Cymwysterau Darparu Sgiliau Hanfodol.<br>3. Profiad o gyd-weithio gyda chyrff gwobrwyo yng Nghymru.<br>4. Cymhwyster anawsterau dysgu lefel 7. |

9. Cymhwyster Lefel 5 Cefnogi Anghenion Ychwanegol <u>neu'n</u> gytûn i weithio tuag at y cymhwyster.
10. Profiad Sicrhau Ansawdd a chymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol Lefel 4.
11. Sgiliau ieithyddol (Cymraeg a Saesneg), rhifedd a llythrennedd digidol rhagorol. (Rhaid meddu ar TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg gradd C neu uwch, neu gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 neu uwch).
12. Sgiliau a dealltwriaeth ddigidol ragorol a'r awydd i gadw'ch dealltwriaeth yn gyfredol.
13. Cymhwyster tiwtor neu ddysgu, neu brofiad cyfwerth.
14. Yn gallu gweithio o dan bwysau a threfnu eich hun a phobl eraill mewn amgylchedd prysur sy'n canolbwyntio ar dargedau.
15. Yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol ac yn gallu addasu eich arddull yn dibynnu ar y gynulleidfa.
16. Hyblyg mewn amgylchedd sy'n datblygu ac yn newid yn gyson.
17. Yn meddu ar y gallu i lwyddo fel rhan o dîm.

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Rhagfyr 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

---

**Gwiriadau Perthnasol**:  Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).